# Ysgol Syr Thomas Jones

# Polisi Camddefnyddio Sylweddau

| | |
|---|---|
| Dyddiad wedi ei fabwysiadu gan y Corff Llywodraethu<br>Date Policy Adopted by Governors<br>*(bydd hefyd angen cofnodi hyn yng nghofnodion y cyfarfod lle cafodd ei dderbyn a'i fabwysiadu)* | 22.3.22 |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr<br>Chair of Governors | Richard Jones |
| Pennaeth<br>Headteacher | Aaron Bayley |
| Dyddiad adolygu<br>Review Date | Gwanwyn 2025<br>Spring 2025 |

**<u>Polisi Camddefnyddio Sylweddau</u>**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r strategaeth 'Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Y Dull Partneriaeth' (2000) yn datgan bod 'Camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn broblem gymhleth, dynamig ac amlweddog'. Un o brif nodau'r strategaeth yw helpu plant a phobl ifanc i wrthod camddefnyddio sylweddau er mwyn cyflawni eu potensial llawn mewn cymdeithas.

Dylid darllen a defnyddio'r polisi hwn ochr wrth ochr â the Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 17/02 'Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc' sy'n disodli cylchlythyr 54/95.

## 2. Diffiniad o Sylwedd

At ddibenion y polisi hwn, mae'r gair 'sylweddau' yn cynnwys pob sylwedd sy'n newid hwyliau a pherfformiad, yn gyfreithlon ac yn anghyfreithlon, ac yn cynnwys

cyffuriau ar bresgripsiwn, alcohol, tybaco a thoddyddion.

Bydd llawer o gyffuriau yn cael eu cludo yn gyfreithlon fel meddyginiaeth. Ceir polisi clir ar weinyddu meddyginiaeth. Os bydd disgyblion yn cyflenwi cyffuriau ar bresgripsiwn i ddisgyblion eraill yn yr ysgol, maent yn gweithredu yn anghyfreithlon ac felly bydd y polisi hwn yn dod i rym.

## 3. Rhoi ar waith

Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu sydd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw am roi'r Polisi Camddefnyddio Sylweddau ar waith.

Yn Ysgol Syr Thomas Jones, yr aelod o staff sydd â chyfrifoldeb am Gamddefnyddio Sylweddau yw **Mrs Eleri Foulkes (Pennaeth Cynorthwyol)**

Bydd Llywodraethwyr yr ysgol yn adolygu'r polisi hwn yn unol â'r amserlen adolygu polisïau. Hefyd mae'n bosib y bydd Llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn camau i ddisgyblu, yn ôl y gofyn.

### 3.1 Ymwybyddiaeth

Dylai'r Polisi Camddefnyddio Sylweddau fod yn hysbys i bob aelod o staff a allai

wneud cyswllt cyntaf â'r heddlu. Fel arfer dylid cyfyngu cyswllt o'r fath i'r:

• Pennaeth

• Y Dirprwy Bennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol

• Yr Athro Arweiniol Amddiffyn Plant

### 3.2 Cyswllt â'r Cyfryngau

Ni fydd staff yn Ysgol Syr Thomas Jones yn adrodd ar ddigwyddiadau a/neu faterion sy'n ymwneud â Chamddefnyddio Sylweddau i'r cyfryngau a'r wasg leol yn gyffredinol. Bydd y Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'r AALl a'r Llywodraethwyr, yn delio yn bersonol â phob mater sy'n ymwneud â'r cyfryngau. Bydd pob ymholiad gan y cyfryngau yn cael ei gyfeirio i Swyddfa'r Wasg AALl.

## 4. Cwricwlwm

Bydd Addysg Camddefnyddio Sylweddau effeithiol yn galluogi plant a phobl ifanc yn Ysgol Syr Thomas Jones i wneud dewisiadau cyfrifol a deallus am eu bywydau. Ni fydd yn cael ei darparu ar ei phen ei hun; bydd hyn yn adlewyrchu'r dull o weithredu yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) i Gymru (2008), sydd wrth wraidd y Polisi hwn.

Yn bennaf, bydd addysg am Gamddefnyddio Sylweddau yn digwydd mewn gwersi Iechyd a Lles ond bydd hefyd yn cael ei darparu trwy bynciau eraill ar draws y Cwricwlwm.

### 4.1 Darparu

Yn Ysgol Syr Thomas Jones bydd disgyblion yn dysgu am Gamddefnyddio Sylweddau gan ddefnyddio dulliau sy'n darparu:

- Gwybodaeth gywir a chyson sy'n cael ei chyflwyno yn syml a chlir
- Deunydd darllen llawn gwybodaeth a hygyrch
- Mynediad at gyfoedion ac arbenigwyr credadwy, yn ogystal ag athrawon/gweithwyr ieuenctid.
- Tasgau y gellir eu mwynhau ac sydd yn ysgogi.
- Heriau priodol mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n ddigon diogel I chwarae rhan lawn a gweithredol.

### 4.2 Defnyddio Siaradwyr allanol

Pan fydd pobl o asiantaethau allanol yn cael eu gwahodd i'r ysgol maent yn 'ymwelwyr' ac ystyrir eu bod yn cyfrannu at raglen gytunedig yr ysgol ac nid yn cymryd ei lle. Bydd ymwelwyr sy'n darparu Addysg Camddefnyddio Sylweddau yn cymryd rhan wrth gynllunio'r rhaglen lawn ac yn cyfrannu eu harbenigedd penodol pan fydd angen e.e. Swyddog Cyswllt yr Heddlu, Gweithiwr Ieuenctid, Ysgolion Iach. Bydd aelod o staff bob amser yn bresennol pan fydd 'ymwelwyr' yn darparu agweddau ar Iechyd a Lles.

### 4.3 Gweithdrefn Gwynion

Bydd unrhyw gwynion am Addysg Camddefnyddio Sylweddau yn cael eu gwneud i'r Uwch Dîm Arweinyddol, a fydd yn adrodd i'r Llywodraethwyr.

## 5. Gweithdrefnau ar gyfer delio â digwyddiad

Bydd staff sy'n dod yn ymwybodol o anawsterau a/neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud â disgyblion a chyffuriau yn rhoi gwybod i'r aelod o staff sy'n gyfrifol. Yna bydd yr aelod o staff sy'n gyfrifol yn

rhoi gwybod i'r pennaeth. Bydd yr ymateb yn dibynnu ar y math a'r radd o risg, a bydd angen gweithredu ar unwaith mewn rhai sefyllfaoedd.

Bydd angen gweithredu ar unwaith pan fod risg amlwg i ddiogelwch, er enghraifft: Efallai na fydd angen gweithredu ar unwaith pan fydd:

• Pryderon neu honiadau cyffredinol am deulu neu ddisgybl penodol

• Datgeliadau a wrthbrofwyd/anghyson

• Pryderon ond dim tystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau neu ymddygiad cysylltiedig sy'n niweidiol neu'n droseddol (fel cyflenwi cyffuriau neu sylweddau niweidiol eraill)

• Pryderon ond dim tystiolaeth o risg di-oed i ddiogelwch. Yn y sefyllfaeoedd hyn , mae'n bosib y buasai arsylwi, cyfweld, ymgynghori ag asiantaethau eraill,neu barhau i fonitro, yn briodol .

Ymhlith y materion y mae angen eu cyfeirio i sefydliadau eraill mae:

• Ymchwiliad i weithgaredd troseddol, gan gynnwys chwilio unigolion neu eiddo personol

• Ar wahân i gymorth cyntaf di-oed, dylai personél meddygol priodol roi sylw I unrhyw achos brys iechyd neu feddygol

• Materion i wasanaethau cymdeithasol yw asesu a darparu cymorth a gwasanaethau i blant a theuluoedd sy'n agored i niwed neu'n ofidus

• Mae rhaglen triniaeth cyffuriau a chwnsela angen staff wedi'u hyfforddi, fel arfer ar gael trwy wasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd neu wasanaethau arbenigol camddefnyddio sylweddau

## 5.1 Cyswllt â Rhieni

Gwneir ymgais rhesymol i gysylltu â rhieni i roi gwybod iddynt y bydd chwiliad yn digwydd. Nid oes gan rieni'r hawl i atal chwiliad o'r fath na'i oedi yn ormodol. Mae grymoedd yr heddlu i gadw unigolyn cyn chwiliad yn gyfyngedig. Os gellir cysylltu â'r rhieni a'u bod ar gael i fynychu'r ysgol, f'eu tywysir i'r ystafell lle cynhelir y chwiliad.

Bydd rhieni'n cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â chyffuriau

oni bai:

• Bod pryderon mewn perthynas ag amddiffyn plant

• Y byddai'n ymyrryd ag ymchwiliad yn yr ysgol

• Y byddai'n ymyrryd ag ymchwiliad yr heddlu

• Y gallai arwain at fwy o niwed i'r plentyn am reswm arall.

Fel arfer cysylltir â rhieni yn uniongyrchol dros y ffôn os profir y defnyddiwyd cyffuriau. Os amheuir y defnyddiwyd cyffuriau ond hynny heb brawf, bydd y protocol heddlu y cytunwyd arno yn cael ei roi ar waith.

### 5.2 Cyswllt â'r Heddlu

Pan fydd gwybodaeth yn cael ei phasio i'r heddlu, bydd cais am chwiliad yn cael ei wneud a bydd yn cael ei bwysleisio, pryd bynnag bo'n bosibl, y bydd swyddogion mewn dillad plaen neu swyddogion amddiffyn y teulu yn mynychu. Dim ond os nad oes dewis arall, neu os oes angen cynnal y chwiliad yn gyflym, y bydd swyddogion mewn gwisg swyddogol yn mynychu'r ysgol.

Wrth fynychu, bydd swyddogion yn cael gwybod am natur yr honiad a'r hyder a roddir yn ffynhonnell y wybodaeth. Byddant yn cael eu tywys i'r ystafell lle bydd y chwiliad yn digwydd, os yw'r disgybl eisoes yn cael ei ddal yno.

Pan nad yw'r rhieni yn bresennol bydd aelod o staff yr ysgol (athro/athawes neu aelod arall o staff yr ysgol)

yn bresennol drwy gydol y chwiliad. Er y caniateir rhai cwestiynau mewn cysylltiad â'r chwiliad, ni chaniateir cyfweliad ffurfiol oni bai bod y rhieni yn bresennol. Mae'n annhebygol iawn y bydd cyfweliad o'r fath yn digwydd ar diroedd yr ysgol.

Dylai staff fod yn wyliadwrus o unrhyw ymgais gan y disgybl i ddianc er mwyn cael gwared ar unrhyw gyffuriau, neu ymgais i basio cyffuriau i unrhyw ddisgybl arall naill yn yr ystafell ddosbarth neu ar y ffordd i'r chwiliad.

## 6. Gweithdrefn ar gyfer delio â disgybl ar ôl digwyddiad

Mae cyffuriau ac alcohol yn effeithio ar ymddygiad. Ni fydd y ffaith bod cyffuriau neu alcohol wedi achosi disgybl i ymddwyn yn amhriodol yn cael ei ystyried fel ffactor sy'n lliniaru - bydd yr ymddygiad yn cael ei gosbi gan ddefnyddio'r Polisi Ymddygiad.

Nid rôl yr ysgol yw darparu gofal meddygol i'r rheiny sydd dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau. Os yw disgybl mewn perygl oherwydd effeithiau alcohol neu gyffuriau, dylid cysylltu â'r rieni a gofyn iddynt gymryd rheolaeth dros eu plentyn. Os nad yw hyn yn bosib, gofynnir i unrhyw gyswllt mewn achos brys gynorthwyo.

Fel arall, gellir cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu i gael cyngor.

Ni chaniateir rhyddhau disgybl i gerdded, beicio neu ddal y bws gartref os oes pryder ei fod o dan effaith alcohol neu gyffuriau.. Os oes angen, gellir defnyddio grym rhesymol i gadw reolaeth ar y plentyn. Mae unrhyw weithiwr wedi'i (h)awdurdodi i ddefnyddio grym dan yr amgylchiadau hyn.

### 6.1 Cofnodi Digwyddiadau

Yn Ysgol Syr Thomas Jones rhaid i'r system i gofnodi digwyddiad gynnwys cofnodion ffeithiol cywir ar gyfer pob digwyddiad o Gamddefnyddio Sylweddau a digwyddiadau cysylltiedig gan gynnwys:

• Ffurflen Cofnodi Digwyddiad

• Ffurflen Cofnodi Cyfweliad

Cyfeiriad ar system ddiogelu'r ysgol – MyConcern

Bydd y cofnod o'r digwyddiad a'r cyfweliad yn cael ei lofnodi a'i ddyddio gan yr aelod cyfrifol o staff / yr Heddlu, gan gynnwys o leiaf un tyst.

## 7. Gweithdrefnau Tu Allan i'r Ysgol

Nid oes gan yr ysgol unrhyw rôl wrth ddelio â digwyddiadau sy'n ymwneud â chyffuriau y tu allan i oriau a thiroedd yr ysgol, ar wahân i:

• Ar dripiau ac ymweliadau ysgol, pan fydd yr un rheolau a gweithdrefnau yn cael eu dilyn cyn belled a bo'n rhesymol ac ymarferol

• Trwy basio gwybodaeth i asiantaethau perthnasol pan mae diogelwch neu les disgybl dan fygythiad

• I gynorthwyo'r heddlu wrth atal defnyddio'r tir o amgylch yr ysgol I fasnachu cyffuriau.

Ar dripiau preswyl gyda myfyrwyr chweched dosbarth, ni fydd staff yn caniatáu i ddisgyblion yfed alcohol heb ganiatâd y rhieni.

## 8. Amddiffyn Plant

Efallai y bydd angen dechrau ar Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan os bydd diogelwch neu les disgybl (neu ddisgybl arall) dan fygythiad. Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig e.e. pe ceir mater amlwg sy'n ymwneud ag amddiffyn plant,y byddai gwybodaeth sensitif yn cael ei phasio yn groes i ddymuniadau disgybl, a hyd yn oed wedyn byddai'r yr ysgol yn rhoi gwybod i'r disgybl yn gyntaf ac yn ymdrechu i esbonio pam fod angen i hyn ddigwydd. Mae'r eithriadau hyn yn cael eu diffinio gan ddyletswydd foesol neu broffesiynol i

weithredu:

• Pe ceir materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant

• Pan fod bywyd mewn perygl

### 8.1 Cyfrinachedd

Ni fydd athrawon yn addo cyfrinachedd. Bydd ffiniau cyfrinachedd yn cael eu mynegi yn glir i ddisgyblion. Os bydd disgybl yn datgelu gwybodaeth sensitif, nad yw'n hysbys yn gyffredinol, ac yn gofyn iddi beidio â chael ei phasio ymlaen, bydd yn cael ei thrafod gydag uwch aelod o staff. Bydd y cais yn cael ei anrhydeddu oni ellir osgoi datgelu'r wybodaeth wrth i athrawon gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas ag:

• Amddiffyn Plant

• Cydweithio ag ymchwiliad yr heddlu

• Cyfeirio at wasanaeth allanol

Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod y disgybl yn cytuno â'r ffordd y mae'r ysgol yn bwriadu defnyddio unrhyw wybodaeth gyfrinachol.

## 9. Gweithdrefn ar gyfer Delio â Digwyddiadau sy'n Cynnwys Staff

Mae digwyddiadau sy'n ymwneud â Chamddefnyddio Sylweddau sy'n cynnwys staff yn destun i Bolisi a Gweithdrefnau Cyflogaeth a Disgyblaethol Cyngor Ynys Môn.

### 9.1 Gweithdrefn ar gyfer Delio ag Oedolion (heb fod yn staff)

Ni fydd Ysgol Syr Thomas Jones yn rhyddhau disgybl i ofal oedolion eraill lle ceir posibilrwydd o niwed i'r disgybl hwnnw.. Pe ceir tystiolaeth bod rhieni neu ofalwyr sy'n cyrraedd yr ysgol i gasglu disgyblion dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, cysylltir â Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu'n unol â Pholisi Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Pan fydd rhiant neu ymwelydd o dan ddylanwad,neu'n ymddangos eu bod o dan ddylanwad sylwedd ar diroedd yr ysgol,gofynnir iddynt adael ar unwaith. Bydd diogelwch y rhiant / ymwelydd yn cael ei sicrhau, hynny â goruchwyliaeth os bydd angen. Pan fydd sylweddau anghyfreithlon yn cael eu darganfod, rhoddir gwybod i'r Heddlu.

## 10. Cael gwared ar Offer Cyffuriau

Bydd nodwyddau neu chwistrellau sy'n cael eu darganfod ar diroedd yr ysgol yn cael eu rhoi mewn cynhwysydd diogel (e.e. blwch offer miniog), gan ddefnyddio menig a gefeiliau bach. Bydd nodwyddau a chwistrellau a ddefnyddiwyd yn cael eu gwaredu yn briodol ac ni fyddant yn cael eu gwaredu mewn gwastraff domestig.

## 11. Adolygu a Gwerthuso

Bydd y Polisi Camddefnyddio Sylweddau hwn yn cael ei adolygu yn unol â Chynllun Datblygu'r Ysgol.

Pennaeth:  Aaron Bayley

Llofnod___________________________________________________

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Richard Jones

Llofnod___________________________________________________

Dyddiad cymeradwyo'r Polisi gan y Corff Llywodraethu:10.3.22

Dyddiad bydd y Polisi'n cael ei adolygu: Gwanwyn 2025

## 1. Introduction

The strategy 'Tackling Substance Misuse in Wales: A Partnership Approach' (2000) states that 'Substance misuse in Wales is a complex, dynamic and multi-faceted problem'. One of the main aims of the strategy is to help children and young people reject substance misuse in order to achieve their full potential in society.

This policy should be read and used in conjunction with the Welsh Assembly Government Circular 17/02 'Substance Misuse: Children and Young People' which replaces circular 54/95.

## 2. Definition of Substance

For the purposes of this policy, the word 'substances' includes all mood and performance altering substances, legal and illegal, and includes prescription drugs, alcohol, tobacco and solvents.

Many drugs will be legally transported as medicine. There is a clear policy on the administration of medication. If pupils supply prescribed drugs to other pupils at school, they are acting illegally and therefore this policy will come into effect.

## 3. Implement

The Head and Governing Body have ultimate responsibility for implementing the Substance Misuse Policy.

At Ysgol Syr Thomas Jones, the member of staff with responsibility for Substance Misuse is **Mrs Eleri Foulkes (Assistant Headteacher)**

The school Governors will review this policy in accordance with the policy review timetable. Governors may also be involved in disciplinary action, as required.

### 3.1 Awareness

The Substance Misuse Policy should be known to all potential staff

make initial contact with the police. Such contact should normally be limited to:

- Headteacher
- The Deputy or Assistant Headteacher
- Lead Teacher for Child Protection

### 3.2 Media Contact

Staff at Sir Thomas Jones School will not report Substance Misuse related incidents and / or issues to the local media and press generally. The Headteacher, in consultation with the LEA and Governors, will deal personally with all media matters. All media inquiries will be directed to LEA’s Press Office.

# 4. Curriculum

Effective Substance Misuse Education will enable children and young people at Sir Thomas Jones School to make responsible and informed choices about their lives. It will not be provided in isolation; this will reflect the approach in the Personal and Social Education (PSE) Framework for Wales (2008), which underpins this Policy.

Substance Misuse education will mainly take place in Health and Wellbeing and Science lessons but will also be provided through other subjects including English, Welsh and Drama.

## 4.1 Delivery

At Ysgol Syr Thomas Jones pupils will learn about Substance Misuse using methods that provide:

• Accurate and consistent information presented simply and clearly

• Informative and accessible reading

• Access to credible peers and experts, as well as teachers / youth workers.

• Enjoyable and motivating tasks.

• Appropriate challenges in an environment where they feel safe enough to play a full and active role.

## 4.2 Use of external Speakers

When people from outside agencies are invited to the school they are 'visitors' and are considered to be contributing to the school's agreed program and not replacing it. Visitors providing Substance Misuse Education will be involved in the design of the full program and contribute their specific expertise when needed e.g. Police Liaison Officer, Youth Worker, Healthy Schools. A member of staff will always be present when 'visitors' provide aspects of Health and Well-being.

## 4.3 Complaints Procedure

Any complaints about Substance Misuse Education will be made to the Senior Leadership Team, who will report to the Governors.

# 5. Procedures for dealing with an incident

Staff who become aware of difficulties and / or incidents involving pupils and drugs will inform the member of staff responsible. The member of staff responsible will then inform the headteacher. The response will depend on the type and degree of risk, and some situations may require immediate action.

Immediate action will be required when there is a clear risk to safety, for example: Immediate action may not be required when:

• General concerns or claims about a particular family or pupil

• Rejected / inconsistent disclosures

• Concerns but no evidence of harmful or criminal substance abuse or related behavior (such as drug or other harmful substances)

• Concerns but no evidence of immediate risk to safety. In these situations, observing, interviewing, consulting or continuing to monitor other agencies may be appropriate.

Issues that need to be referred to other organizations include:

• Investigation of criminal activity, including searching individuals or personal property

• Apart from immediate first aid, any medical or medical emergency should be addressed by appropriate medical personnel

• Assessing and providing support and services to vulnerable or distressed children and families is a matter for social services

• A drug treatment and counseling program requires trained staff, usually available through social services, health services or specialist substance misuse services

## 5.1 Contact with Parents

A reasonable attempt will be made to contact parents to inform them that a search will take place. Parents do not have the right to prevent or delay such a search. Police powers to detain an individual before a search are limited. If the parents can be contacted and are available to attend the school, they will guide you to the room where the search will be carried out.

Parents will be informed of any drug related incidents

unless:

• There were child protection concerns

• That it would interfere with a school investigation

• That it would interfere with the police investigation

• It may result in further harm to the child for another reason.

Parents are usually contacted directly by telephone if drug use is proven. If drug use is suspected but not tested, the agreed police protocol will be put in place.

## 5.2 Police Liaison

When information is passed to the police, a search request will be made and it will be emphasized that whenever possible, plain clothes officers or family protection officers will attend. Officials in uniform will only attend the school if there is no alternative, or the search needs to be conducted quickly.

When attending, officers will be made aware of the nature of the allegation and the confidence given in the source of the information. They will be taken to the room where the search will take place, if the pupil is already trapped there.

When the parents are not present a member of the school staff (teacher or other school staff)

was present throughout the search. Although some questions are allowed in connection with the search, a formal interview is not allowed unless parents are present. It is very unlikely that such an interview will take place in the school grounds.

Staff should be wary of any attempt by the pupil to escape in order to dispose of any drugs, or attempt to pass drugs to any other pupil either in the classroom or en route to the search.

## 6. Procedure for dealing with a pupil after an incident

Drugs and alcohol affect behavior. The fact that drugs or alcohol caused a pupil to behave inappropriately will not be considered a mitigating factor - the behavior will be punished using the Behavior Policy.

The role of the school is not to provide medical care to those under the influence of alcohol or drugs. If a pupil is at risk due to the effects of alcohol or drugs, parents should be contacted and asked to take control of their child. If this is not possible, any emergency contact will be asked to assist.

Alternatively, contact social services and the police for advice.

A pupil may not be released to walk, cycle or catch the bus home if there is concern that he or she is affected by alcohol or drugs. If necessary, reasonable force may be used to control the child. Any employee is authorized to use force in these circumstances.

### 6.1 Incident Recording

At Ysgol Syr Thomas Jones the incident reporting system must include accurate factual records for all Substance Misuse and related incidents including:

• Incident Reporting Form

• Interview Record Form

The incident record and interview will be signed and dated by the responsible member of staff / Police, including at least one witness.

## 7. Out of School Procedures

The school has no role in dealing with out of hours drug incidents and school grounds, other than:

• On school trips and visits, where the same rules and procedures are followed as far as is reasonable and practicable

• By passing information to relevant agencies when a pupil's safety or welfare is under threat

• To assist the police in preventing the use of the land around the school for drug trafficking.

On residential trips with sixth form students, staff will not allow pupils to drink alcohol without parental consent.

## 8. Child Protection

The All Wales Child Protection Procedures may need to be initiated if the safety or welfare of a pupil (or other pupil) is threatened. Only in exceptional circumstances e.g. if there was a clear child protection issue, sensitive information would be passed against a pupil's wishes, and even then the school would inform the pupil first and try to explain why this needs to happen. These exceptions are defined by a moral or professional duty to

action:

• If there are child protection issues

• When life is in danger

### 8.1 Confidentiality

Teachers will not promise confidentiality. The boundaries of confidentiality will be clearly communicated to pupils. If a pupil discloses sensitive information, which is not generally known, and requests that it is not passed on, it will be discussed with a senior member of staff. The request will be honored unless disclosure of the information can be avoided as teachers carry out their professional responsibilities in relation to:

• Child Protection

• Co-operate with the police investigation

• Referral to an external service

Every effort will be made to ensure that the pupil agrees with the way in which the school intends to use any confidential information.

## 9. Procedure for Dealing with Incidents involving Staff

Substance Misuse related incidents involving staff are subject to the Isle of Anglesey Council's Employment and Disciplinary Policy and Procedures.

### 9.1 Procedure for Dealing with Adults (non-staff)

Ysgol Syr Thomas Jones will not release a pupil into the care of other adults where there is a possibility of harm to that pupil. If there is evidence that parents or carers arriving at the school to collect pupils are under the influence of drugs or alcohol, Services Social or Police in line with the All Wales Child Protection Policy.

When a parent or visitor is under the influence, or appears to be substantially influenced by the school grounds, they are asked to leave immediately. The safety of the parent / visitor will be ensured, with supervision if necessary. When illegal substances are discovered, the Police are informed.

## 10. Disposal of Drug Equipment

Needles or syringes found on the school grounds will be placed in a secure container (eg sharp toolbox), using gloves and small forceps. Used needles and syringes will be properly disposed of and not disposed of in domestic waste.

## 11. Review and Evaluation

This Substance Misuse Policy will be reviewed in accordance with the School Development Plan.

Headteacher: Aaron Bayley

Chair of Governors: Richard Jones

Signature________________________________________________

Date of approval of Policy by Governing Body:10.3.22

Date the Policy will be reviewed: Spring 2025